




Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



GWASANAETHAU TAN AC ACHUB YNG NGHYMRU
**STRATEGAETH DATBLYGU POBL
A SEFYDLIADOL 2018-2021**



Mae tri Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA) yng Nghymru:

- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Datblygwyd y strategaeth hon i'w gweithredu o 2018 i 2021 ac mae'n sail i ymrwymiad y Gwasanaethau Tân ac Achub Cymreig i ddysgu gydol oes a chymhwysedd yn y gweithle.

Bydd y strategaeth yn sicrhau bod cysondeb o ran dull i ddatblygu a chefnogi pobl ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub ac yn darparu fframwaith ar gyfer meddwl arloesol a gweithio i gefnogi cydweithio a phartneriaeth barhaus.

Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn cefnogi cyflawni strategaethau cenedlaethol cymwys wrth gydbwysu hyn â ffocws ar ddarparu gwasanaeth sy'n rhoi diogelwch Cymru yn gyntaf o fewn cyd-destun Llywodraeth ddatganoledig. I'r perwyl hwnnw, mae'r strategaethau a'r fframweithiau canlynol wedi llywio datblygu ein strategaeth a, lle y bo'n briodol, cyfeirir atynt yn uniongyrchol:


- Y Pwyllgor Materion Cenedlaethol
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ac Adroddiadau Gwella Blynyddol
- Strategaethau Iechyd, Diogelwch a Lles
- Dogfen Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaeth Tân (2016)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Gwneud y Gwahaniaeth Angenrheidiol - Cyfarwyddyd Strategol Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân 2015-2019
- Strategaeth Pobl Tân ac Achub (2017-2022)
- Mesurau'r Gymraeg (Cymru) 2011
- Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yng Nghymru

Bydd meddwl yn arloesol a defnyddio ffyrdd newydd o weithio yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth sy'n diogelu unigolion a chymunedau Cymru ac yn adlewyrchu meysydd blaenoriaeth Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. O ystyried y pwysau cyllidebol parhaus a disgwyliadau cynyddol y cyhoedd, mae'r strategaeth hon yn cefnogi chwilio am ffyrdd newydd o weithio er mwyn defnyddio sgiliau a phroffesiynoldeb gweithlu'r GTA er budd y cyhoedd yng Nghymru.

Er bod y strategaeth wedi cael ei hysgrifennu gan ddarparu 7 elfen allweddol, mae'n amlwg bod yr elfennau yn ddibynnu ar ei gilydd ac ni ddylid eu darllen na'u cymhwyso ar wahân:

1. Darparu adnoddau i'r Gwasanaeth Tân ac Achub
2. Iechyd a Lles
3. Ffitrwydd
4. Gweithleoedd Cynhwysol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth)
5. Gwobrwyo a Chydnabod
6. Systemau Rheoli Gwybodaeth
7. Hyfforddi a Datblygu

Ymgynghori a Chyfathrebu



Ymgynghorir yn barhaus â'r Cyrff Cynrychioliadol ynghylch gweithredu elfennau penodol o'r strategaeth.

Mae'r strategaeth ar gael i bob gweithiwr ar fewnrwydi a gwefannau'r gwasanaethau.

Cyfrifoldeb

Mae gan bob gweithiwr gyfrifoldeb i weithredu'r egwyddorion a geir o fewn y strategaeth hon, ynghyd ag Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub.

Monitro ac Adolygu

Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd gan y Grŵp Datblygu Pobl a Sefydliadau.

Nod

Galluogi Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru i gwrdd â'r disgwyliadau esblygol presennol ac i'r dyfodol o ran cyflawni nodau ac amcanion sefydliadol drwy recriwtio, datblygu a chadw gweithlu hyfedr, brwdfrydig a dwyieithog sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau a wasanaethwn. Mae'r strategaeth hefyd yn ceisio nodi ac eithafu potensial drwy reoli a datblygu pobl yn effeithiol, gan arwain at ddiwylliant uchel ei gyrhaeddiad wrth wneud y defnydd mwyaf effeithiol o arian cyhoeddus.

Diben

Pwrpas y strategaeth yw cefnogi'r sefydliad i gyflawni ei amcanion trwy sicrhau bod y Gwasanaethau Tân ac Achub Cymreig yn ymdrechu i greu gweithlu sydd â'r hyfforddiant, y gefnogaeth a'r offer i wneud eu gwaith ac sy'n:

- Canolbwyntio ar y Gwasanaeth a'r gymuned
- Ymrwymedig i'n Gwerthoedd Craidd
- Cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu
- Frwdfrydig a medrus.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i leihau'r risg o danau, damweiniau traffig ar y ffyrdd ac argyfyngau eraill ac i ddyrchafu lles cymunedol. Rydym yn cydnabod y ffordd y mae'r GTA erbyn hyn yn gweithio y tu hwnt i'w rôl draddodiadol mewn maes cynyddol amrywiol.



1. Darparu Adnoddau i'r Gwasanaeth Tân ac Achub

Un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw Cymru lewyrchus. Cymdeithas carbon isel arloesol a chynhyrchiol sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac felly sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon a chymesur; ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus a addysgwyd yn dda o fewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith teilwng.

Recriwtio, datblygu a chadw gweithlu sydd â'r ymroddiad a'r sgiliau i ddarparu gwasanaethau'r Awdurdod; gwella cyfathrebu, a darparu cyfleoedd adleoli ac ailhyfforddi effeithiol trwy:

- Sicrhau bod prosesau recriwtio a datblygu yn deg, yn dryloyw, ac yn ceisio adlewyrchu amrywiaeth y gymuned a diwallu anghenion y sefydliadau yn y dyfodol gan ddefnyddio dulliau cenedlaethol lle y bo'n gymwys.
- Cefnogi Rhaglen Brentisiaeth Cymru ac amcan Llywodraeth Cymru o ddarparu prentisiaethau i 10,000 o bobl ifanc erbyn 2022.
- Adolygu polisïau ac arferion recriwtio, dethol a dyrchafu'n gyson, gan roi pwyslais arbennig ar eglurder, tegwch, tryloywder a chyfle cyfartal.
- Gweithredu trefniadau adleoli effeithiol i sicrhau bod yr holl weithwyr sy'n wynebu diswyddiadau neu golli cyflogaeth (ac eithrio am resymau disgyblu) yn cael cynnig gwaith ategol addas lle bo modd yn seiliedig ar gyfleoedd ailhyfforddi addas.
- Datblygu strategaethau sy'n ystyried yr oedran ymddeol arferol sy'n cynyddu.
- Datblygu cynlluniau'r gweithlu a chynlluniau olyniaeth ar gyfer gweithwyr presennol.
- Asesu amrywedd rolau gweithwyr yn y dyfodol.
- Asesu dichonoldeb y system ddyletswydd rhan amser/Ar Alwad yn y dyfodol ac ystyried defnyddio modelau gweithio hyblyg eraill i ddarparu ymateb gweithredol.
- Gwella effeithlonrwydd gydag arferion gweithio callach, ymchwilio i fodelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau rheng flaen, mynd i'r afael â rhwystrau diwylliannol a pharhau i symleiddio prosesau gweinyddu a throsi i E-systemau lle y bo'n bosibl.
- Gweithlu sy'n cael ei ddatblygu a'i hyfforddi'n briodol i fod yn ddiogel ac i fodloni gofynion eu rolau, a fframwaith rheoli perfformiad sydd hefyd yn cynorthwyo rheolwyr i fodloni gofynion eu rôl.

2. Iechyd a Llesiant

Cymru iachach - cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl yn cael eu heithafu lle deïllir dewisiadau ac ymddygiadau fydd o fudd o ran iechyd yn y dyfodol.

Wrth fabwysiadu dull mwy cyfannol o wella lles gweithwyr o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn lleihau absenoldeb a chanolbwyntio ar hybu iechyd o fewn y Gwasanaeth.



Mae mentrau lleihau absenoldeb wedi bod yn llwyddiannus ond mae hybu iechyd a lles yn debygol o gael mwy o fuddion o ran cynhyrchiant, cymhelliant a bod yn gyflogwr deniadol. Ei ddiben yw gwella'r amgylchedd ffisegol a seicolegol er mwyn gwella lles gweithwyr ac, yn ei dro, perfformiad gweithwyr. Os cyflawnir hyn, gallwn ddisgwyl gostyngiad o ran nifer y diwrnodau a gollir oherwydd salwch a chynnydd mewn perfformiad unigol a chyfunol.

Mae darparu gweithle iach a diogel i'n gweithwyr yn hanfodol er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel. Bydd ymagwedd y Gwasanaethau tuag at lechyd a Diogelwch yn parhau i fod yn rhagweithiol gan wneud defnydd llawn o ddangosyddion arweiniol yn hytrach na dibynnu ar ddangosyddion ôl syllol i nodi a goleuo gwelliannau pellach. Mae gan amgylchedd o'r fath y potensial i wella'r modd y cyflenwir gwasanaethau drwy leihau damweiniau a lefelau absenoldeb oherwydd salwch a phosiblwydd llai o ymddeoliadau oherwydd salwch.

Mabwysiadu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae ein harferion cyflogi cyffredinol yn cefnogi gweithwyr sy'n datgelu materion yn ymwneud â chamdrin drwy weithredu i gadw gweithwyr yn ddiogel yn y gwaith a'u cynorthwyo i aros yn ddiogel y tu allan i'r gwaith a mynd i'r afael ag ymddygiad gweithwyr sy'n gyfrifol am y materion hyn.

Darparu gwasanaeth lechyd Galwedigaethol rhagweithiol sy'n ymrwymedig i nodi a mynd i'r afael ag anafiadau diwydiannol, straen ac achosion eraill o absenoldeb oherwydd salwch, yn ogystal â hybu byw'n iach. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2016 yn nodi bod poblogaeth Cymru yn byw'n hirach a bod yr oedran gweithio yn cynyddu ac felly'n rhoi pwyslais cynyddol ar bwysigrwydd byw'n iach.



Mabwysiadu fframwaith i reolwyr ar gyfer rheoli absenoldeb oherwydd salwch sy'n taro cydbwysedd rhwng angen sefydliadol a chefnogi gweithwyr.

Meithrin diwylliant o gyfranogi ac ymwneud wedi'u seilio ar gyfathrebu a chynhwysiant agored. Mae gan waith rôl bwysig o ran hybu lles seicolegol, gan ei fod yn hybu hunan-barch a rhyngweithio cymdeithasol. Mae hyn yn debygol o helpu gweithwyr i deimlo bod ganddynt reolaeth dros eu gwaith ac yn meithrin lles meddyliol. Bydd y Gwasanaethau Tân ac Achub yn codi ymwybyddiaeth o les meddwl ymhlith y gweithlu er mwyn lleihau'r risg o effeithiau negyddol posibl ar weithwyr a'r sefydliad, yn ogystal â lleihau'r potensial am stigma sy'n gysylltiedig â'r gweithwyr hynny sydd â salwch meddwl.

Darparu Rhaglen Gymorth i Weithwyr (RhGG). Bwriad hon yw cynorthwyo gweithwyr i fod yn rhagweithiol wrth ddelio â phroblemau personol a phroblemau/neu broblemau sy'n gysylltiedig â'r gwaith a allai gael effaith andwyol ar eu perfformiad yn y gwaith, eu hiechyd a'u lles.

3. Ffitrwydd

Cymru sy'n meddu ar ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus - cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.

Mae ymgyrchoedd ymladd tân ac achub yn rhoi ymladdwyr tân mewn sefyllfaoedd lle maent yn gweithio dan amodau gwaith anodd, llafurus a beichus sy'n gofyn am lefel uchel o ffitrwydd corfforol a meddyliol.

Mae rheoli ffitrwydd ar lefel unigol a sefydliadol yn allweddol i sicrhau gweithlu gweithredol diogel ac iach. Cydnabyddir mai ymrwymiad cytundebol yr holl staff gweithredol yw bod yn gyfrifol am eu perfformiad eu hunain (gan gynnwys iechyd a ffitrwydd personol). Mae'r Gwasanaethau'n deall manteision cael gweithlu iach a bydd yn cefnogi staff gweithredol i gynnal eu haddasrwydd i gyflawni eu rôl.

Bydd y Gwasanaethau'n cynnal asesiadau iechyd a ffitrwydd rheolaidd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau Cenedlaethol. (Mae Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2016 yn nodi y dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub barhau i weithredu yn ôl safon ffitrwydd sengl cymeradwy).

Yn ogystal â hyn, bydd y Gwasanaethau'n mabwysiadu argymhellion Firefit a gyflwynir fel safon genedlaethol ar gyfer ffitrwydd aerobig ymladd tanau diogel ac effeithiol gan gynnwys ffitrwydd aerobig a chryfder cyhyrol.

Tra bod rhwymedigaethau cytundebol a chyfreithiol i bersonél gweithredol ar gyfer unigolion a sefydliadau yn eu tro, bydd pob gweithiwr yn cael ei annog i fod yn gorfforol heini gan ei bod yn hanfodol iddynt gynnal lefelau digonol o ffitrwydd corfforol i'w galluogi i gyflawni eu rôl yn ddiogel ac effeithiol. Fodd bynnag, yn ogystal â hyn mae'n bwysig deall ymddygiadau iechyd ein gweithwyr a nodi risgiau cysylltiedig o ran ffordd o fyw a galwedigaeth i iechyd a lles. Mae helpu staff i ddeall y risgiau hyn i'w bywydau yn gyffredinol yn ogystal â'u bywyd yn y gweithle yn hanfodol i hyn oll.



Bydd y Gwasanaethau yn cefnogi pob gweithiwr, yn weithwyr gweithredol a staff cymorth, trwy gynnig arweiniad a chynghor gan Gynghorwyr Ffitrwydd Corfforol ar ddiet, dewisiadau ffordd o fyw, materion ffitrwydd a rheoli pwysau yn ogystal â chynnig mynediad lleol i gyfleusterau ffitrwydd.



4. Gweithleoedd Cynhwysol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth)

Cymru sy'n fwy cyfartal - cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial er gwaethaf eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

Sicrhau bod cynlluniau ar waith i recriwtio, datblygu a chadw'r gweithwyr sydd eu hangen arnom wrth gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Datblygu gweithwyr yn unol â Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth i feithrin diwylliant sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi datblygiad personol ac yn galluogi gweithwyr i ddeall eu lle o fewn y sefydliad gan greu amgylchedd o werth a chydlyniant. Bydd y strategaeth yn ein cynorthwyo i

greu amgylchedd sy'n datblygu doniau ac yn cadw cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd ac yn annog cyfranogiad ac ymrwymiad.

O ystyried bod dros 50% o'r boblogaeth yn fenywod, nid yw'r ganran o fenywod yn y gweithlu ar hyn o bryd yn adlewyrchu hyn, gydag ychydig dros 5% o ymladdwyr tân yn fenywod ar y gorau. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi cyflawni llawer o waith yn y maes hwn gan gymryd camau cadarnhaol, ond mae angen gwneud llawer mwy. Mae angen ymgysylltu â phobl pan fyddant yn ifancach nag y credwyd y dylid ei wneud yn y gorffennol gan fod ystrydebu ar sail rhyw mewn rolau cyflogi yn digwydd yn gynnar mewn datblygiad plant. Mae angen mynd i'r afael â hyn fel bod mwy o'r boblogaeth yn dewis gyrfa gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mynd i'r afael â rhwystrau diwylliannol i sicrhau bod yr amgylchedd gweithle yn hygyrch i weithlu amrywiol.

Gwerthfawrogi amrywiaeth yn y Gwasanaeth a'r gymuned drwy hyrwyddo cyfleoedd cyfartal o ran cyflogi a datblygu ac wrth herio rhagfarn a gwahaniaethu. Ymgymryd â Gweithredu Strategaethau Gweithredu'r Grŵp Tân Cynhwysol.

Drwy gydraddoldeb cyflog, telir y gyfradd tâl berthnasol ar gyfer y rôl a'u hamodau gwasanaeth i bob gweithiwr. Bydd y Gwasanaethau yn monitro cydraddoldeb cyflog yn gyson yn unol â gofynion deddfwriaethol (Adrodd Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) a'i bolisi cyflogi.

Darparu digwyddiadau gweithredu cadarnhaol amserol i annog grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ystyried gyrfa gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

Parhau i ymrwymo'n gadarn i gryfhau ein gwerthoedd a chynnal diwylliant sy'n sicrhau bod gweithwyr yn cael eu trin â thegwch a pharch er mwyn hyrwyddo'r Gwasanaeth fel cyflogwr dewisol.



Yr Iaith Gymraeg

Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus. Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.

Ysgrifennir y strategaeth hon yn unol â gwerthoedd craidd y Gwasanaethau Tân ac Achub gan gydnabod eu cyfrifoldebau o dan 'Rheoliadau Safonau Cymraeg', a adlewyrchir yn y Polisiâu Iaith Gymraeg unigol a lunnir gan bob sefydliad.

Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r Gymraeg a buddsoddi mewn gwella sgiliau a safonau, wrth i ni barhau i bwysleisio pwysigrwydd gweithlu dwyieithog a darparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru.

Recriwtio gweithwyr sydd â'r lefel briodol o ran sgiliau iaith Gymraeg i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd a chefnogi gweithwyr sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu Cymraeg er mwyn ei defnyddio yn y gweithle.

Corffori Safonau'r Gymraeg er mwyn darparu gwasanaethau yn Gymraeg ac mewn meysydd eraill megis llunio polisiâu a hyrwyddo'r Gymraeg.

5. Gwobrwyo a chydabod

Cymru lewyrchus - sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogi, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith teilwng.

Hyrwyddo agenda cyflogaeth deg a chyflwyno polisiau ac arferion gwaith sy'n cefnogi rheoli newid yn weithredol mewn partneriaeth â'n gweithlu, cyrff a sefydliadau cynrychiadol.

Darparu manteision priodol ychwanegol i weithwyr sy'n cynnig gwerth am arian ar gyfer y tri Gwasanaeth.

Mae newidiadau pensiwn wedi creu llwybrau gyrfa hwy; byddwn yn ceisio cydweithio ar faterion pensiwn lle bo'n bosib a chreu llwybrau gwell ar gyfer cydgysylltu gwybodaeth i weithwyr.

Ymgysylltu'n gynnar â staff i godi ymwybyddiaeth a darparu cefnogaeth ar gyfer datblygiad personol, cyfleoedd, rhesymwaith a llwybrau dilyniant.



6. Systemau rheoli gwybodaeth

Cymru lewyrchus - cymdeithas carbon isel arloesol, gynhyrchiol sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd - eang ac felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith teilwng.

Datblygu cynllun strategol ar gyfer y gweithlu gan gyfuno newid yn y gweithlu, technoleg, demograffeg, trosiant ac arferion rheoli gorau.

Casglu a dadansoddi data gweithwyr a gweithlu sy'n ofynnol gan yr Awdurdodau a sefydliadau allanol perthnasol i gefnogi arferion effeithiol a hyddysg ar gyfer rheoli pobl, gan arwain at welliannau mesuradwy sy'n seiliedig ar ansawdd o ran perfformiad gweithle.

Dadansoddi data gweithlu gweithredol a strategol, a chasglu a dadansoddi data ar gyfer arolygon statudol ac arolygon gweithlu allanol eraill, gan gynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar gyfer rheolwyr ar bob lefel.

Cadw cofnodion gweithwyr a chofnodion eraill yn gywir ac yn gyfamserol, gan fod yn ymwybodol bob amser o faterion cyfrinachedd yn unol ag Egwyddorion Diogelu Data.

Sicrhau bod systemau asesu a dilysu cadarn ar waith i ganiatáu cofnodi gweithgareddau hyfforddi a datblygu a pherfformiad yn y gweithle a sicrhau bod gweithgareddau o'r fath yn cyd-fynd ag anghenion unigolion a'r sefydliad.

Rhaid i'r systemau hefyd sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei chofnodi ar gyfer rheoli hyfforddi a datblygu a'i bod yn bodloni gofynion cyfreithiol a statudol.

Rhaid i'r systemau ddarparu gwybodaeth reoli i gynorthwyo â chynllunio gweithgareddau hyfforddi a datblygu a diwallu anghenion sicrhau ansawdd mewnol/allanol ac archwilio.

7. Hyfforddi a Datblygu

Cymru lewyrchus - sy'n datblygu poblogaeth fedrus wedi'i haddysgu'n dda mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith da.

Cymru iachach - cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl yn cael ei eithafu a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.



Cymru fwy cyfartal – cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, er gwaethaf eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

Cymru â diwylliant ac iaith Gymraeg fywiog - cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.

Mae'r strategaeth yn darparu fframwaith cydlynol ar gyfer ein gweithgarwch ar gyfer gwella corfforaethol. Ymgwymerwyd â dull bras o ran datblygu sefydliadol gan sicrhau ein bod yn ystyried gwelliannau i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn gyffredinol yn hytrach na datblygiad gwasanaethau unigol neu bersonol o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub.

I'r perwyl hwn, mae'n bwysig bod y Gwasanaethau Tân ac Achub yn parhau i gydweithio â'i gilydd, sefydliadau addysgol a darparwyr hyfforddiant a datblygu allanol eraill, gan sicrhau y gallwn weithredu mewn amgylchedd aml-asiantaeth a newidiol.

Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad parhaus gweithlu proffesiynol drwy sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i gynnal a gwella eu sgiliau. Yn ogystal, maent yn anelu at greu amgylchedd gwaith sy'n ddiogel, yn gynhwysol, yn annog dysgu gydol oes ac yn rhydd o wahaniaethu.

Mae angen datganoli mwy o gyfrifoldeb i reoli perfformiad, datblygu a dilyniant staff i reolwyr llinell. Bydd ymgrymuso reolwyr yn cynorthwyo darparu ystod gynyddol o brofiad a sgiliau i gefnogi cynnal a chadw sgiliau craidd.

Mae natur ddaearyddol amrywiol Cymru a'r ddibyniaeth ar y System Ddyletswydd Ar Alwad yn golygu bod angen amgylcheddau dysgu sydd yn hyblyg ac yn hawdd eu cyrraedd. Mae defnyddio modiwlau e-ddysgu i gynorthwyo â darparu dysgu canolog a darpariaeth yn ddull cyflawni hyblyg tebyg. Mae defnyddio technoleg yn fwy a gweithio hyblyg yn ategu ein hymrwymiad i agendâu amgylcheddol a chynaliadwyedd. Yn ogystal, mae gweithgareddau hyfforddiant gweithredol a phrotocolau caffael wedi'u halinio â strategaethau a pholisïau amgylcheddol y Gwasanaeth.





Er mwyn sicrhau cysondeb byddwn yn defnyddio'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol o hyd i adolygu a datblygu rhaglenni newydd. Bydd hyn yn sicrhau darpariaeth datblygiad i gyrraedd lefel a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn unol â gofynion y rôl.

Bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn darparu dulliau sicrhau ansawdd cadarn mewn perthynas â chyflawni gweithgareddau dysgu a datblygu.

Arweinwyr y Dyfodol

Ystyrir bod yr angen i adnabod a datblygu arweinwyr yn y dyfodol ledled y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gydran allweddol er mwyn ateb heriau'r presennol a'r dyfodol. Bydd natur gyfnewidiol y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr y dyfodol herio arferion presennol a datblygu atebion arloesol i gwrdd â risgiau cymdeithasol. Wrth i gyfleoedd i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth gael eu datblygu, bydd gofyn i arweinwyr hefyd arwain heb awdurdod a dylanwadu er mwyn goresgyn ffiniau sefydliadol. Dylid cefnogi hyn drwy rannu'r arferion gorau a pharhau i ddatblygu'n gydweithredol ac ymgysylltu â rhaglenni arweinyddiaeth yng Nghymru a'r DU yn ehangach fel y bo'n briodol.

Bydd cynllunio effeithiol ar gyfer olyniaeth yn sicrhau y caiff arweinwyr GTA y dyfodol eu hadnabod ac y darperir hwy â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i baratoi ar gyfer her sefydliadol ac amrywder yn y dyfodol. Bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau sefydledig ac arloesol, gan gynnwys asesu a datblygu sgiliau ac ymddygiadau technegol i hyfforddi, datblygu a chefnogi'r rhai sydd â'r potensial i fod yn arweinwyr yn y dyfodol.

Mae angen sicrhau bod y Gwasanaethau Tân ac Achub yn sefydlu gweithlu sy'n meddu ar y sgiliau a'r cymwyseddau priodol, sy'n ddigon hyblyg lle bynnag a phryd bynnag y bydd eu hangen. Archwiliwyd i ffyrdd newydd o weithio ac mae sylfaen eisoes wedi'i gosod ar gyfer y rhain. Heb os nac oni bai, mae'r gwaith hwn wedi adnabod meysydd eraill y mae angen eu hadolygu neu eu mireinio er mwyn sicrhau y gellir cyflawni gwelliannau pellach o ran effeithlonrwydd.

